Atodiad 3

# Pecyn Cefndirol

# Ysgol Baladeulyn

| Cynnwys | |
|---|---|
| **1** | **Cyfarfod Lleol 1 – 17 Mawrth 2025** |
| | Cyflwyniad |
| | Cofnodion y cyfarfod |
| **2** | **Cyfarfod Lleol 2 – 19 Mai 2025** |
| | Cyflwyniad |
| | Cofnodion y cyfarfod |
| **3** | **Cyfarfod Lleol 3 – 7 Gorffennaf 2025** |
| | Cyflwyniad |
| | Cofnodion y cyfarfod |
| **4** | **Crynodeb o’r mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Lleol** |

# PANEL ADOLYGU YSGOL BALADEULYN

# YSGOL BALADEULYN REVIEW PANEL

**17 Mawrth 2025**

***17 March 2025***

CYNGOR GWYNEDD



1

# AGENDA


| | |
|---|---|
| 1. Croeso | *1. Welcome* |
| 2. Sefyllfa Bresennol | *2. Current Situation* |
| 3. Ystyriaethau | *3. Considerations* |
| 4. Opsiynau Posib | *4. Possible Options* |
| 5. Camau Nesaf | *5. Next Steps* |
| 6. Cloi | *6. Close* |

CYNGOR GWYNEDD

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

2

# SEFYLLFA BRESENNOL - NIFEROEDD/ CURRENT SITUATION - NUMBERS




| | |
|---|---|
| Niferoedd Dysgwyr Ionawr 2025 (D – Bl.6 )/ Number of Pupils January 2025 (R –Y6) | 13 |
| Capasiti (D – Bl. 6) / Capacity (R – Yr. 6) | 55 |
| Llefydd Gweigion / Surplus Places | 42 (76%) |

3

# SEFYLLFA BRESENNOL – AMREDIAD OEDRAN DOSBARTHIADAU/ CURRENT SITUATION – AGE RANGE OF CLASSES

| | Blwyddyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
| Ysgol Baladeulyn | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 3 | 1 | 4 | 13 |
| Dosbarthiadau | Dosbarth | | | | Dosbarth | | | | |

**Ffynhonnell**: Cyfrifiad Ionawr 2025 (CYBLD)
***Source**: Janaury 2025 Census (PLASC)*

4

# SEFYLLFA BRESENNOL – RHAGAMCANION/ CURRENT SITUATION – PROJECTIONS

| | Blwyddyn | | | | | | | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Meithrin | Derbyn-Bl.6 |
| Ionawr 2025 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 3 | 1 | 4 | 0 | 13 |
| Rhagamcanion Medi 2025 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 3 | 1 | 2 | 9 |
| Rhagamcanion Medi 2026 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 3 | 1 | 10 |
| Rhagamcanion Medi 2027 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | 2 | 1 | 8 |

5

# SEFYLLFA BRESENNOL – DYSGWYR Y DALGYLCH CURRENT SITUATION – CATCHMENT PUPILS

| | | Byw yn Dalgylch (Medi 2024) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Bro Lleu 2089 | Brynaerau 2017 | Llanllyfni 2070 | Nebo 2081 | Talysarn 2108 | Baladeulyn 2078 | Bro Llifon 2229 | Arall | Cyfanswm Ysgol *(M-Bl6 )* |
| Mynychu Ysgol (Medi 2024) | Bro Lleu | | | | | | 1 | | | |
| | Brynaerau | | | | | | 0 | | | |
| | Llanllyfni | | | | | | 0 | | | |
| | Nebo | | | | | | 0 | | | |
| | Talysarn | | | | | | 7 | | | |
| | Baladeulyn | 2 | 3 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | **13** |
| | Bro Llifon | | | | | | 1 | | | |
| | Arall | | | | | | 1 | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | | | **14** | | | |

**Meddalwedd GIS y Cyngor (System Gwybodaeth Ddaearyddol), yn nodi mai dim ond 14 dysgwr oed cynradd sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Baladeulyn. Er hyn, dim ond 4 sydd yn dewis mynychu'r ysgol, gyda 9 o'r dysgwyr yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Dyffryn Nantlle, ac 1 yn teithio'n all-dalgylch.**

***The Council's GIS software (Geographical Information System) shows that only 14 primary age learners live in the catchment area of Ysgol Baladeulyn. Despite this, only 4 choose to attend the school, with 9 of the learners attending other primary schools in the Dyffryn Nantlle catchment area, and 1 travelling outside the catchment area.***

6

## SEFYLLFA BRESENNOL – CYLLIDEB YR YSGOL (2024/25)/ CURRENT SITUATION – SCHOOL BUDGET (2024/25)

| | Ysgol Baladeulyn | Cyfartaledd Sirol County Average |
|---|---|---|
| **Dyraniad Craidd 2024-2025** Allocation 2024-2025 | £175,744 | - |
| **Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio*** Minimum Staffing Protection* | **£77,659** | - |
| **Cyfanswm Dyraniad** Total Allocation | £237,914 | - |
| **Cyfartaledd y Disgybl** Average per Pupil | **£14,982** | **£5,223** |

**Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob ysgol gyda mwy na 15 disgybl, a pennaeth a chymhorthydd dosbarth mewn ysgolion gyda llai na 15 disgybl.

***The minimum staffing protection policy ensures a minimum of headteacher and teacher at every school which has more than 15 pupils, and a heateacher and a classroom assistant in a school with fewer than 15 pupils.*

CYNGOR GWYNEDD

7

## SEFYLLFA BRESENNOL – STRWYTHUR STAFFIO CURRENT SITUATION – STAFF STRUCTURE

Mae strwythur staffio presennol Ysgol Baladeulyn yn cynnwys pennaeth llawn amser, 2 athro rhan amser (3 diwrnod yr un) a chyfwerth â 55 awr o gymorthyddion dysgu.

Trwy Polisi Gwarchodaeth Cyngor Gwynedd, gwarantir isafswm lefel staffio o bennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser. Gan fod llai na 15 o ddysgwyr llawn amser ar y gofrestr ym Medi 2024, bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar gyllideb yr ysgol o Ebrill 2025 ymlaen. Fel mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, mae'n bosib bydd yr ysgol angen lleihau lefelau staffio'r ysgol erbyn Medi 2025 gyda gwarchodaeth lleiafswm staff yn caniatáu cyllid ar gyfer pennaeth a cymhorthydd dysgu yn unig o Ebrill 2025.

*The current staffing structure of Ysgol Baladeulyn includes a* a full-time headteacher, 2 part-time teachers (3 days each) and the equivalent of 55 hours of teaching assistants.

*Through the Cyngor Gwynedd Protection Policy, a minimum staffing level of a headteacher and assistant is available in schools with less than 15 full-time learners. As there was less than 15 full-time learners on the register in September 2024, this will have a significant impact on the school's budget from April 2025 onwards. As things stand, the school may need to reduce the school's staffing levels by September 2025 with the minimum teaching staff protection allowing financing for only a headteacher and a teaching assistant from April 2025.*

8

# CRYNHOI PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / SUMMARY OF THE MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT SITUATION

| | |
|---|---|
| 1 | Nifer disgyblion yr ysgol yr ail-isaf yn y sir<br>*The number of pupils at the school is the second lowest in the county* |
| 2 | Rhagamcanion yn parhau yn isel<br>*Projections remain low* |
| 3 | Nifer uchel o lefydd gweigion<br>*High number of surplus places* |
| 4 | Maint dosbarthiadau bychain iawn<br>*Very small class sizes* |
| 5 | Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau<br>*Broad age range within classes* |
| 6 | Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol<br>*Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average* |
| 7 | Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio<br>*School receives an additional £77,659 (September 2024) through the minimum staffing protection* |

CYNGOR GWYNEDD

9

# YSTYRIAETHAU CONSIDERATIONS

Wrth lunio a chymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:
*In formulating and comparing options, we will consider several factors, including:*

| | |
|---|---|
| 1 | Maint dosbarthiadau / C*lass sizes* |
| 2 | Niferoedd disgyblion / *Pupil numbers* |
| 3 | Arweinyddiaeth a Staffio / *Leadership and Staffing* |
| 4 | Y Gymuned / *The Community* |
| 5 | Adnoddau ariannol / *Financial resources* |
| 6 | Yr iaith Gymraeg / *The Welsh language* |
| 7 | Ansawdd addysg */ Quality of education* |
| 8 | Cyflwr ac addasrwydd adeiladau */ Condition and suitability of the building* |
| 9 | Daearyddol a teithio / *Geographical and travel* |

CYNGOR GWYNEDD

10

## OPSIYNAU POSIB / POSSIBLE OPTIONS

| | |
|---|---|
| **1** | Status Quo – Parhau efo'r sefyllfa bresennol.<br>*Status Quo – Continue with the current situation.* |
| **2** | Ffedereiddio Ysgol Baladeulyn gydag ysgol cyfagos.<br>*Federating Ysgol Baladeulyn with a neighboring school.* |
| **3** | Cau Ysgol Baladeulyn o a chynnig lle i'r disgyblion yn yr ysgol agosaf.<br>*Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils at the nearest school.* |

CYNGOR GWYNEDD

11

## CAMAU NESAF/ NEXT STEPS

| Camau Nesaf / *Next Steps* | Dyddiad / *Date* |
|---|---|
| **Dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw opsiynau / sylwadau pellach**<br>***Closing date for receiving any further options / comments*** | **28/3/2025** |
| **Cyfarfod Panel Adolygu 2**<br>***Review Panel Meeting 2*** | **7/4/2025** |

CYNGOR GWYNEDD

12

# Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn

Addysg

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn 1** | **Dyddiad/Amser/Lleoliad: Dydd Llun, 17 Mawrth 2025 am 18:00 yn Ysgol Baladeulyn** |
| **Presennol:** | Rhieni, Llywodraethwyr a Staff Ysgol Baladeulyn (wedi'w gofnodi ar y gofrestr); Dafydd Pritchard, Pennaeth Ysgol Baladeulyn (DP); Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Adran Addysg (GapRh); Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg (DJ); Gareth Richard Jones, Swyddog Moderneiddio Addysg (GRJ); Enid Warren (EW)(cofnodi) | |

| **Cofnod Llawn** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | • Croesawodd DP bawb i gyfarfod y Panel Adolygu Ysgolion a diolchodd i'r staff, llywodraethwyr a rhieni am eu cefnogaeth. Nodwyd bod swyddogion y Cyngor yn bresennol i drafod sefyllfa bresennol yr ysgol.<br>• Derbyniwyd gair o groeso gan y Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet dros Addysg, a diolchodd i'r mynychwyr am ddod. Pwysleisiodd mai pwrpas y cyfarfod ydi adolygu sefyllfa'r ysgol a'i fod o yno i wrando ar y drafodaeth.<br>• Eglurodd GapRh fod adroddiad wedi'i gyflwyno gerbron y Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau trafodaethau gyda'r ysgol ynglŷn â'r heriau presennol. Eglurodd mai sgwrs gychwynnol ydi'r cyfarfod hwn, gan roi cyfle i randdeiliaid ofyn cwestiynau. Nodwyd y byddai'n gwbl agored ac yn dryloyw, ac ymrwymodd i roi'r ymatebion mwyaf cyflawn posibl i gwestiynau o dan yr amgylchiadau.<br>Aeth drwy'r cyflwyniad gan amlygu rhai heriau amlwg:<br>• Ers 2016, mae nifer y dysgwyr wedi gostwng yn sylweddol. Ar hyn o bryd, mae 42 allan o 55 o lefydd gweigion (76%). Mae llefydd gweigion mewn ysgolion yn gynhennus; mae'r Llywodraeth yn gofyn i adolygu unrhyw ysgol gyda llefydd gweigion o 10%, ond yn Ngwynedd, does dim gormod o sylw i'r mater oherwydd mae llawer o ysgolion dros y trothwy o 10%.<br>• Erbyn Medi 2027, rhagwelir y bydd y nifer y dysgwyr yn gostwng i 8. Mae gan yr ysgol fwy o ddysgwyr ymysg y grwpiau blwyddyn hŷn, gyda llai o blant ifanc yn cofrestru. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd o ostyngiad yn niferoedd y dysgwyr.<br>• Mae 14 o blant oed cynradd yn byw yn nalgylch Baladeulyn. Ar hyn o bryd, mae 13 o ddysgwyr yn mynychu Ysgol Baladeulyn, ond dim ond 4 sy'n byw o fewn y dalgylch dynodedig. Daw gweddill y dysgwyr o ddalgylchoedd eraill<br>• Mae rhieni wedi cael yr opsiwn i anfon eu plant i ysgolion y tu allan i'w dalgylch ers gyflwyno rheolau newydd yn 1996. Mae hyn wedi dilyn at batrymau cofrestru amrywiol.<br>• Mae gan ddosbarthiadau'r ysgol ystod oedran eang, sy'n cyflwyno heriau ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Yn ddelfrydol, dylid grwpio dysgwyr yn ôl oedran a lefel academaidd.<br>• Mae'r ysgol yn derbyn dyraniad ariannol gan y Cyngor, gan gynnwys gwarchodaeth isafswm i sicrhau lefelau staffio. Mae Ysgol Baladeulyn wedi elwa o'r drefn diogelu hwn ers peth amser.<br>• Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cyflogi 1 pennaeth llawn amser a 2 athro rhan amser. O dan y polisi ar gyfer ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr, bydd angen i'r llywodraethwyr a'r pennaeth adolygu'r strwythur staffio ar gyfer Medi 2025.<br>• Wrth werthuso a chymharu opsiynau posibl ar gyfer yr ysgol, rhaid rhoi sylw i'r holl ffactorau perthnasol yn y cyflwyniad. Bydd y Cyngor yn asesu nifer o ffactorau a allai effeithio ar yr opsiynau hyn.<br>• Mae'r cyflwyniad eisoes wedi amlygu sawl opsiwn posib: cynnal y sefyllfa bresennol, sefydlu ffederasiwn gydag ysgol arall (ystyriaeth allweddol gan mai ysgol wledig yw hon) neu gau'r ysgol a chynnig lle i ddysgwyr mewn ysgol cyfagos arall. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd yr opsiynau hyn yn sail i adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.<br>• Nodwyd os oes gan unrhyw un opsiynau eraill i'w cyflwyno, i wneud hynny erbyn 24 Mawrth 2025.<br>**Diwedd y cyflwyniad**<br><br>• Teimlodd rhai mynychwyr fod yr amserlen yn rhy dynn ar gyfer cyflwyno opsiynau. Cydnabuwyd hyn ac estynnodd GapRh y dyddiad cyflwyno i 31 Mawrth, 2025.<br>• Cododd un mynychwr bryder ynghylch dibynnu ar geisiadau FOI cyn cyflwyno opsiynau. Cytunodd GapRh i edrych ar y ceisiadau ar fyrder, ond eglurodd y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadlewyrchu o fewn yr asesiadau effaith, fyddai'n atodiad i'r Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad llawn.<br>• Nodwyd hefyd nad oedd sylwadau'r Aelod Lleol wedi'u cynnwys yng nghofnodion y Cabinet. Cadarnhaodd GapRh fod y sylwadau wedi'u cofnodi ar waelod yr Adroddiad o fewn rhaglen y Cabinet.<br>• Codwyd pryder am leoliad yr ysgol, gan ei bod wedi ei leoli ar ffin y Parc Cenedlaethol, ac ei bod yn awyddus i'r Cyngor edrych ar ysgolion cynradd eraill o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, ac effaith y lleoliad arnynt.<br>• Mynegodd mynychwr arall bwysigrwydd lleoliad yr ysgol, gan bwysleisio'r golygfeydd hardd sydd o'i chwmpas hi.<br>• Nododd DP fod data a ffigyrau'r ysgol yn glir, ac y dylai'r ffocws nawr fod ar gynnig atebion hyfyw.<br>• Nododd GapRh ei fod yn cydnabod y teimladau cryf ynghylch y mater ond pwysleisiodd yr angen i ddilyn y broses gywir.<br>• Bydd Swyddogion y Cyngor yn gwerthuso'r holl opsiynau cyn yr ail gyfarfod. Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo ymgynghoriad llawn ar yr opsiynau, bydd cyfleoedd i fynychwyr rannu eu barn a'u pryderon.<br>• Gofynnwyd be fyddai'r amserlen pe byddai'r ysgol yn cau? Gallai'r broses lawn cymryd hyd at 18 mis, ond ni ddylid gwneud unrhyw ragdybiaethau ar hyn o bryd.<br>• Tynnodd un o'r mynychwyr sylw at awyrgylch gartrefol yr ysgol, ei chysylltiad cryf â'r gymuned leol, a'r mantais o ran cynnig cymhareb staff-i-ddysgwr uwch. Roedd GapRh yn cydnabod hyn ond pwysleisiodd yr angen i sicrhau tegwch a chyfleoedd cyfartal ar draws y sir.<br>• Mynegodd mynychwr bryderon am ddiffyg tai fforddiadwy yn y pentref, gyda llawer o eiddo yn dai haf neu'n cael eu gadael yn wag. Credai rhai pe byddai anghenion tai cymdeithasol yn cael eu diwallu, y byddai niferoedd yr ysgol yn codi. Nododd GapRh, er nad yw'r Adran Addysg yn rheoli polisi tai, mae'r gostyngiad yn niferoedd yr ysgol yn ymwneud a diffyg niferoedd plant. Soniodd fod cyfradd genedigaethau Gwynedd ar ei isaf erioed, gan effeithio ar nifer o ardaloedd gwledig a threfol hefyd e.e. Bangor.<br>• Gofynnwyd pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, a fyddai'r cyngor yn talu i gludo blentyn i'r ysgol amgen? Eglurodd GapRh byddai'r dalgylch yn uno â dalgylch ysgol gyfagos. Byddai polisi trafnidiaeth y Cyngor yn sicrhau bod plant cymwys yn cael cludiant i'w hysgol newydd.<br>• Gofynnwyd a fyddai hebryngwr yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n defnyddio cludiant ysgol. Eglurodd GapRh y byddai hebryngwr yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr ag ADY yn unig.<br>• Gofynnodd sut y byddai'r Adran Addysg yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Eglurodd GapRh fod y Côd Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn am ymgynghori gyda phlant, a bydd y Cyngor yn ceisio gwneud hyn yn y modd mwyaf sensitif â phosibl.<br>• Ymunodd DJ yn y drafodaeth gan gydnabod pryderon y mynychwyr. Cadarnhaodd y byddai'n pasio eu cwestiynau i Adran Tai'r Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Tynnodd sylw at ddatblygiadau cadarnhaol diweddar gan y Cyngor, gan gynnwys prynu cartrefi ar gyfer lletya, adeiladu tai cymdeithasol a gweithredu offeryn cynllunio Erthygl 4 (Gwynedd yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno hyn). Cyfeiriodd DJ at enghraifft gadarnhaol yn barod, wrth iddo enghreifftio bod 6 tŷ teras yn Nhwtil, Caernarfon (sydd wedi bod yn dai gwyliau yn y gorffennol) wedi eu gwerthu'n lleol ers cyflwyno'r rheol cynllunio. Nododd hefyd fod polisi tai cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn llym o ran y gofyn am gysylltiadau lleol.<br>• Gofynnodd a fyddai cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer dysgwyr ADY yr ysgol? Eglurodd GapRh fod y system gyllido yn symud oddi wrth oriau fesul dysgwyr. Yn lle hynny, mae'r dull newydd yn cyfrifo'r gyllideb ADY yn seiliedig ar fformiwla. Roedd £9 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y Gwasanaeth ADY eleni ynghyd â buddsoddiad o grant ADY ychwanegol o £800,000.<br>• Pwysleisiodd mynychwr rôl hollbwysig yr ysgol wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Gofynnwyd a fyddai asesiad yn cael ei gynnal o effaith newidiadau ar yr iaith a'r gymuned? Cadarnhaodd GapRh y byddai asesiad ieithyddol a chymunedol yn cael ei gynnal.<br>• Gofynnwyd a allai rhieni sy'n gyrru eu plant i Ysgol Talysarn ar hyn o bryd ddewis eu cofrestru yn Ysgol Baladeulyn yn lle hynny? Cadarnhawyd na fyddai ceisiadau yn cael eu gwrthod.<br>• Gofynnwyd beth fyddai'r manteision ac anfanteision ffedereiddio gydag ysgol arall? Eglurodd GapRh fod ffedereiddio yn caniatáu i ysgolion weithredu o dan un arweinyddiaeth, ac yn cryfhau'r cyd-weithio. Fodd bynnag, byddai heriau ariannol ysgolion bach yn parhau. Byddai'r opsiwn ffedereiddio yn cael ei werthuso'n ofalus ochr yn ochr â'r opsiynau eraill.<br>• Gofynnwyd a fyddai asesiadau effaith unigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob dysgwr. Eglurodd GapRh y byddai rhieni'n cael y cyfle i gyflwyno manylion perthnasol am sefyllfa benodol eu plentyn yn ystod y broses ymgynghori.<br>• Cododd GapRh bwynt ynglŷn a phwysigrwydd ystyried cyflwr adeilad yr ysgol, gan nodi bod polisi ôl-ddefnydd yr ysgolion yn cynnwys opsiwn i gynnig yr hen adeilad ysgol i'r gymuned.<br>• Gan ddod a'r drafodaeth i gasgliad, nododd DJ nad yw hyn yn brofiad braf i neb. Nododd ei fod yn cytuno efo llawer o bryderon y mynychwyr heno. Efallai na fydd cytuno bob tro, ond pwysleisiodd bwysigrwydd i gydweithio drwy'r heriau. Ategodd GapRh yr hyn ddywedodd DJ gan ddiolch am y cwestiynau.<br>• Diolchodd DP i swyddogion y Cyngor a DJ. Nododd fod y drafodaeth heno wedi adlewyrchu'r teimladau cryf sydd ymysg rhanddeiliaid yr ysgol, a gwerthfawrogodd nad oes ymateb i pob cwestiwn. Atgoffodd y mynychwyr bod hyn yn gyfle i gynnig opsiynau amgen, ac fe'u hanogir i gyflwyno eu syniadau iddo ef ei basio ymlaen i'r Cyngor. |

# PANEL ADOLYGU YSGOL GYNRADD BALADEULYN

# YSGOL GYNRADD BALADEULYN REVIEW MEETING

**19 Mai 2025**

***19 May 2025***

1

# AGENDA

1. **Croeso**
2. **Crynhoi Prif Heriau**
3. **Ystyriaethau**
4. **Opsiynau Posib**
5. **Dadansoddiad SWOT**
6. **Camau Nesaf**

1. ***Welcome***
2. ***Summary of Main Challenges***
3. ***Considerations***
4. ***Possible Options***
5. ***SWOT Analysis***
6. ***Next Steps***

2

# CRYNHOI PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / SUMMARY OF THE MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT SITUATION

| | |
|---|---|
| 1 | Nifer disgyblion yr ysgol yn ail isaf yn y sir<br>*The number of pupils at the school is the second lowest in the county* |
| 2 | Rhagamcanion yn parhau yn isel<br>*Projections remain low* |
| 3 | Nifer uchel o lefydd gweigion<br>*High number of surplus places* |
| 4 | Maint dosbarthiadau bychain<br>*Small class sizes* |
| 5 | Amrediad ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau<br>*Broad age range within classes* |
| 6 | Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol<br>*Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average* |
| 7 | Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio<br>*School receives an additional £77,659 (September 2024) through the minimum staffing protection* |

CYNGOR GWYNEDD

3

# YSTYRIAETHAU / CONSIDERATIONS

Wrth lunio a chymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:
*In formulating and comparing options, we will consider several factors, including:*

| | |
|---|---|
| 1 | Maint dosbarthiadau / C*lass sizes* |
| 2 | Niferoedd disgyblion / *Pupil numbers* |
| 3 | Arweinyddiaeth a Staffio / *Leadership and Staffing* |
| 4 | Y Gymuned / *The Community* |
| 5 | Adnoddau ariannol / *Financial resources* |
| 6 | Yr iaith Gymraeg / *The Welsh language* |
| 7 | Ansawdd addysg */ Quality of education* |
| 8 | Cyflwr ac addasrwydd adeiladau */ Condition and suitability of the building* |
| 9 | Daearyddol a teithio / *Geographical and travel* |

CYNGOR GWYNEDD

4

# RHESTR HIR OPSIYNAU / LONG LIST OF OPTIONS

| | |
|---|---|
| **1** | Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol / No change - *continue with the current situation* |
| **2** | Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos / *Federation with nearby school* |
| **3** | Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos / *Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school* |
| **4** | Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol / Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school |
| **5** | Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Merger of local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn |
| **6** | Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn |
| **7** | Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Federation with another school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn |

5

# DIYSTYRU OPSIWN / DISCOUNTED OPTION

Mae'r opsiwn canlynol wedi cael eu diystyru gan nad ydi o yn cyd fynd gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion / The following opton has been discounted as it doesn't adhere to the School Organisation Code

| | | |
|---|---|---|
| **4** | Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol / Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school | Mae **Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)** yn nodi:<br><br>Caiff cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud cynigion i newid categori eu hysgol. Fodd bynnag, dylid nodi na cheir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol dynodedig **neu sy'n peri bod iddi wedyn gymeriad crefyddol dynodedig nad oedd iddi cynt, neu ei bod yn colli ei chymeriad crefyddol dynodedig. Ni chaniateir cymeriad crefyddol i ysgolion cymunedol**. Nid yw hi'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori. **Yn ogystal â hyn, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol sydd â chymeriad crefyddol dynodedig.**<br><br>The governing bodies of maintained schools may make proposals to change the category of their school. However, it should be noted that **no alteration may be made to a maintained school that changes its designated religious character or causes it to acquire or lose a designated religious character. Community schools are not permitted to have a religious character.** It is not possible for voluntary aided, voluntary controlled or foundation schools with a designated religious character to become a community school through a change of category proposal. **Similarly community schools cannot become voluntary schools with a designated religious character.** |

6

# OPSIYNAU RHESTR FER DADANSODDIAD SWOT / SHORT LIST OF OPTIONS - SWOT ANALYSIS

Rydym felly wedi cynnal gwerthusiad *SWOT I'r 6 opsiwn arall gan gadw mewn cof prif heriau mae'r ysgol yn ei wynebu /*
*We have therefore carried out a SWOT analysis on the other 6 options giving consideration to the main challenges facing the school*

| | |
|---|---|
| **1** | Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol / No change - *continue with the current situation* |
| **2** | Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos / *Federation with nearby school* |
| **3** | Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos / *Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school* |
| **5** | Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn |
| **6** | Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn |
| **7** | Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Federation with another school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn |

7

# 1. Dim newid – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol / No change – Continue with the current situation

| CRYFDERAU / STRENGTHS | GWENDIDAU / WEAKNESSES |
|---|---|
| Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle | Niferoedd yn parhau yn isel. |
| Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch | Cost y dygwr yn uchel. |
| Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 | Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau |
| Swyddi staff yr ysgol yn parhau (yn ddibynnol ar y dyraniad) | Maint dosbarthiadau bychain yn parhau |
| Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda | Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth. |
| | Canran uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol yn parhau |
| **CYFLEON / OPPORTUNITIES** | **BYGYTHIADAU / THREATS** |
| Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw I dysgwyr unigol. | Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel. |
| Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. | Posibilrwydd o ddiffyg yn y gyllideb. |
| | Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau |
| | Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn parhau i fynychu ysgolion all dalgylch. |
| | Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynaladwyedd hir dymor yr ysgol. |

8

## 2. Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos / Federation with a nearby school

| CRYFDERAU / STRENGTHS | GWENDIDAU / WEAKNESSES |
|---|---|
| Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle | Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau |
| Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. | Maint dosbarthiadau bychain yn parhau. |
| Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 | Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel |
| Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda | Niferoedd ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth. |
| | Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn. |
| | Cost y disgybl yn parhau yn uchel. |
| **CYFLEON / OPPORTUNITIES** | **BYGYTHIADAU / THREATS** |
| Un Corff Llywodraethol. | Posibilrwydd o ddiffyg yn y gyllideb. |
| Rhannu adnoddau ac arbenigeddau. | Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau |
| Ysgolion yn cefnogi eu gilydd. | Llefydd gweigion sylweddol yn parhau. |
| Gall model ffurfiol roi strwythur pendant | Rhagamcanion niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel. |
| Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw I dysgwyr unigol. | Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn parhau i fynychu ysgolion all dalgylch. |
| Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. | Ffederasiwn yn fodel sydd yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â' trefniant i gyd-weithio. |

CYNGOR GWYNEDD

9

## 3. Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i disgyblion y dalgylch mewn ysgol cyfagos / Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils from the catchment a place at a neighbouring school

| CRYFDERAU / STRENGTHS | GWENDIDAU / WEAKNESSES |
|---|---|
| Dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw / addas. | Colli presenoldeb ysgol yn Nantlle |
| Lleihad yn llefydd gweigion | Pellter teithio pellach o gartref dysgwyr dalgylch Baladeulyn |
| Llawer o blant dalgylch Baladeulyn yn barod yn mynychu ysgolion cyfagos | Costau cludiant i gludo dysgwyr i ysgol amgen. |
| Lleihad yng nghost y disgybl. | Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy. |
| Gwarchodaeth lleiafswm staffio yn lleihau | Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn sydd yn cael ei gynnig ym mhresennol i gefnogi iechyd a lles. |
| Ni fyddai rhaid i ddysgwyr deithio pellter afresymol i ysgol gyfagos. | Effaith negyddol posib ar les y dysgwyr presennol. |
| Ysgolion cyfagos yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3. | |
| Ansawdd addysg holl ysgolion cyfagos o leiaf gystal a Ysgol Baladeulyn (Arolygon Estyn) | |
| **CYFLEON / OPPORTUNITIES** | **BYGYTHIADAU / THREATS** |
| Cyfle i ddysgwyr gymysgu yn ddyddiol gydag eraill o'r un oedran. | Diswyddo staff. |
| Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau. | Posibilrwydd o golli adnodd cymunedol yn y pentref. |
| Arbed ar gostau cynnal a chadw adeilad | |

10

## 5. Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to support and maintain Ysgol Baladeulyn

| CRYFDERAU / STRENGTHS | GWENDIDAU / WEAKNESSES |
|---|---|
| Pellter daearyddol rhesymol rhwng ysgolion | Amrediad oedran eang yn parhau yn safle Ysgol Baladeulyn |
| Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle | Maint dosbarthiadau bychain yn parhau yn safle Ysgol Baladeulyn |
| Ysgolion perthnasol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch | Niferoedd isel yn Ysgol Baladeulyn yn debygol o barhau |
| Dim angen cludiant ychwanegol na chostau ynghlwm a hyn | Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o ddenu disgyblion ychwanegol i Ysgol Baladeulyn. |
| Lleihad yn cost y pen dysgwyr | Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn |
| Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 | |
| Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda | |
| **CYFLEON / OPPORTUNITIES** | **BYGYTHIADAU / THREATS** |
| Un Corff Llywodraethol. | Un pennaeth yn gorfod rheoli mwy nac un safle felly, yn ddibynnol ar y strwythur, mae'n bosib na fydda presenoldeb pennaeth ar safle Ysgol Baladeulyn |
| Un ysgol ar mwy nag un safle | |
| Posib rhannu adnoddau. | Costau cynnal a chadw Ysgol Baladeulyn yn parhau |
| Dosbarthiadau bychain ar safle Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw I dysgwyr unigol. | Dyraniad cyllidol yn annhebygol o fod yn ddigonol i gyflogi athrawon ar gyfer yr holl safleoedd |
| Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau ar safle Ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfle I weithio gyda plant o wahanol oedrannau | Llefydd gweigion sylweddol yn debygol o barhau yn safle Ysgol Baladeulyn |

11

## 5. Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to support and maintain Ysgol Baladeulyn

| CYFLEON / OPPORTUNITIES | BYGYTHIADAU / THREATS |
|---|---|
| Mi fydda uno Ysgol Baladeulyn ag ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos yn gyfle i sefydlogi niferoedd cofrestru myfyrwyr, cynyddu cyllid, a lleihau costau gweithredu. Byddai'r dull hwn yn sicrhau y gall Ysgol Baladeulyn barhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i bob myfyriwr ac ymdrin â'r heriau a achosir gan y gostyngiad mewn cofrestru. | Rhagamcanion niferoedd yn debygol o barhau yn isel yn safle Ysgol Baladeulyn |
| Byddai uno Ysgol Baladeulyn ag ysgolion cynradd cyfagos eraill yn yr ardal yn creu sefydliad cyfunol a all weithredu'n fwy effeithlon. Byddai hyn yn golygu cyfuno adnoddau'r ysgolion, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau addysgu, gan gynnal y ffocws ar gyfrwng y Gymraeg. | Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch. |
| Drwy uno, bydd yr ysgol gyfunol yn elwa o arbedion maint. Bydd yr ysgol fwy yn denu mwy o gyllid gan yr awdurdod lleol oherwydd corff myfyrwyr mwy, gan fod cyllid yn aml yn seiliedig ar niferoedd cofrestru myfyrwyr. Gellir defnyddio'r cyllid cynyddol hwn i wella adnoddau, staff addysgu a chyfleusterau. | Posibilrwydd na fydd y model yn cael ei dderbyn gan ysgolion eraill |
| Byddai uno yn caniatáu cydgrynhoi swyddogaethau gweinyddol, megis rolau arweinyddiaeth, cyllid, AD a gwasanaethau TG, gan leihau costau gorbenion. Byddai hyn yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau, gan sicrhau bod mwy o arian yn cael ei ddyrannu i wella'r profiad addysgol yn uniongyrchol. | |
| Gall yr ysgol unedig rannu adnoddau megis staff, deunyddiau addysgol, cyfleusterau chwaraeon a rhaglenni allgyrsiol. Byddai hyn yn lleihau costau fesul myfyriwr ac yn gwella ansawdd cyffredinol y profiad addysgol, gan ganiatáu mwy o fuddsoddiad mewn meysydd arbenigol megis addysg arbennig, rhaglenni iaith a thechnoleg. | |
| Bydd yr uno yn caniatáu i Ysgol Baladeulyn ehangu ei chwricwlwm a'i gweithgareddau allgyrsiol. Gyda adnoddau ychwanegol, bydd yr ysgol yn gallu: Cynnig ystod ehangach o bynciau a gweithgareddau na fyddai efallai wedi bod yn ariannol ymarferol mewn lleoliad ysgol lai.<br><br>Datblygu rhaglenni a chefnogaeth arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion arbennig, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y profiad addysgol. | |

12

## 5. Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to support and maintain Ysgol Baladeulyn

| CYFLEON / OPPORTUNITIES | BYGYTHIADAU / THREATS |
|---|---|
| Mae'n debyg y bydd ysgol fwy, wedi'i huno, yn derbyn mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r cyngor lleol, gan fod modelau cyllido yn aml yn ystyried nifer y myfyrwyr cofrestredig. Gallai'r uno arwain at incwm mwy sefydlog a rhagweladwy, gan ganiatáu i'r ysgol gynllunio'n well ar gyfer anghenion y dyfodol yn hytrach na chyfyngiadau cyllidebol cynllunio ariannol y cyngor. | |
| Gall uno ysgolion helpu i leihau dyblygu gwasanaethau, symleiddio costau gweinyddol, a chaniatáu defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Er enghraifft, gall yr ysgol gael un tîm arweinyddiaeth a lleihau nifer y staff nad ydynt yn addysgu sydd eu hangen ar gyfer swyddogaethau gweinyddu a chefnogi, gan ostwng costau uwchben. Gall gwasanaethau a rennir, fel cludiant a chynnal a chadw, hefyd fod yn fwy cost-effeithiol pan gânt eu canoli. | |
| Efallai y bydd ysgol fwy, mwy integredig yn gallu cael mynediad at gyllid ychwanegol o amrywiol grantiau addysgol a diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r iaith Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol, ac addysg wledig. Gall yr arbedion maint a grëwyd gan yr uno ei gwneud hi'n fwy deniadol i asiantaethau cyllido gefnogi'r ysgol newydd. | |
| Gall yr uno arwain at ddyrannu staff addysgu yn fwy effeithlon, dilyniant staff a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel ADY, datblygu'r iaith Gymraeg, a thechnoleg. Ar ben hynny, bydd ysgol fwy yn galluogi'r staff i dderbyn datblygiad proffesiynol mwy cadarn, gan arwain at safonau addysgu uwch a chanlyniadau gwell i fyfyrwyr. Mae gan Baladeulyn bresenoldeb cyfartalog uchel eisoes. | |
| Bydd yr uno yn arwain at gynnig addysg cryfach a mwy amrywiol, gan helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial academaidd mewn amgylchedd mwy sefydlog ac sy'n gyfoethog o ran adnoddau. Bydd hefyd yn sicrhau bod gan blant fynediad at ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol, gwasanaethau cymorth, a rhaglenni arbenigol. | |
| Bydd uno ysgolion yn helpu i feithrin ymdeimlad mwy o gymuned. Bydd cyfle gan rieni, myfyrwyr a staff o wahanol ysgolion i gydweithio a chreu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Bydd y dull cymunedol unedig hwn yn helpu i ddiogelu iaith a diwylliant Cymraeg yr ysgol wrth gryfhau'r cysylltiadau o fewn yr ardal leol. | |
| Bydd gan yr ysgol fwy, wedi'i huno, y gallu i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn well. Drwy gydgrynhoi adnoddau ac arbenigedd, gall yr ysgol ddarparu cefnogaeth ac ymyriadau mwy teilwra, gan sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle i ffynnu. | |

13

## 6. Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Add a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn

| CRYFDERAU / STRENGTHS | GWENDIDAU / WEAKNESSES |
|---|---|
| Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle | Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel yn Ysgol Baladeulyn |
| Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch. | Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o ddenu disgyblion ychwanegol i Ysgol Baladeulyn. |
| Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3. | Cost y disgybl yn parhau yn uchel. |
| Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda | Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau |
| | Maint dosbarthiadau bychain. |
| | Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth. |
| | Costau cludiant uwch i gludo dysgwyr gyda ADY i Ysgol Baladeulyn |
| **CYFLEON / OPPORTUNITIES** | **BYGYTHIADAU / THREATS** |
| Gwell defnydd o'r adeilad dry leoli Uned ADY ar y safle | Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gweithio efo ysgolion i sicrhau bod disgyblion gydag anawsterau penodol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm, gan sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol. |
| Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. | Diffyg cyllid cyfalaf i wneud addasiadau i'r safle |
| Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfle I weithio gyda plant o wahanol oedrannau | Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau |
| Cyfranu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr | Angen recriwtio staff arbenigol. |

14

## 6. Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Add a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn

| CYFLEON / OPPORTUNITIES | BYGYTHIADAU / THREATS |
|---|---|
| Mae Ysgol Baladeulyn eisoes yn adnodd addysgol gwerthfawr o fewn y gymuned, a thrwy ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig, gallwn ddarparu ateb lleol, yn y Gymraeg i deuluoedd sydd â dewisiadau cyfyngedig ar hyn o bryd. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd addysg gynhwysol a chefnogaeth i blant ag anghenion dysgu amrywiol. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol hanes o blant/dysgwyr ag ADY. | Canolfannau arbenigol eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer plant gyda anghenion dwys |
| Ni fydd angen i deuluoedd deithio pellteroedd hir mwyach am gymorth arbenigol, gan y bydd ganddynt fynediad at ateb lleol, Cymraeg ar gyfer anghenion addysgol arbennig eu plant. | Aberthu gofod dysgu ar gyfer yr Uned ADY ar y safle. |
| Bydd ychwanegu ardal arbenigol yn caniatáu i blant ag anghenion arbennig dderbyn addysg unigol. | Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch. |
| Bydd y maes arbenigol yn helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, gan sicrhau bod plant ag anghenion arbennig yn cael eu hintegreiddio i gymuned ehangach yr ysgol a bod pob myfyriwr yn elwa o amgylchedd dysgu meithringar a chefnogol. | |
| Drwy barhau i ddarparu addysg yn y Gymraeg, bydd Ysgol Baladeulyn yn sicrhau y gall plant ag anghenion arbennig gael mynediad at addysg yn eu hiaith gyntaf, gan gadw eu treftadaeth ddiwylliannol: Nantlle – ardal UNESCO, a hyrwyddo defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned. | |

CYNGOR GWYNEDD

15

## 7. Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag ADY yn Ysgol Baladeulyn

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle | Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau |
| Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch. | Maint dosbarthiadau bychain. |
| -Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3. | Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel, gan nad yw ffederaleiddio na lleoli uned ADY ar safle ysgol yn arferol yn denu dysgwyr ychwanegol i'r ysgol. |
| Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda | Niferoedd ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth. |
| | Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer dysgwyr Ysgol Baladeulyn. |
| | Cost y dysgwr yn parhau yn uchel. |
| **CYFLEON** | **BYGYTHIADAU** |
| Un Corff Llywodraethol. | Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gweithio efo ysgolion i sicrhau bod disgyblion gydag anawsterau penodol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm, gan sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol. |
| Rhannu adnoddau ac arbenigeddau. | Diffyg cyllid i wneud addasiadau i'r safle |
| Ysgolion yn cefnogi eu gilydd. | Angen recriwtio staff arbenigol |
| Gall model ffurfiol gynnig strwythur pendant. | Posibilrwydd o ddiffyg yn y gyllideb. |
| Gwell defnydd o'r adeilad drwy leoli uned ADY ar y safle. | Costau cynnal a chadw'r adeiladau yn parhau. |
| Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. | Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel. |
| Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfle I weithio gyda plant o wahanol oedrannau | Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn parhau i fynychu ysgolion all dalgylch. |
| Cyfranu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr | Ffederasiwn yn fodel sydd yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â' trefniant i gyd-weithio. |

16

# CAMAU NESAF/ NEXT STEPS

| **Camau Nesaf / *Next Steps*** | **Dyddiad / *Date*** |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw gywiriadau / sylwadau<br>*Closing date for receiving any corrections / comments* | 16/6/2025 |
| Cyfarfod Panel Adolygu 3<br>*Review Panel Meeting 3* | Gorffennaf 2025 / *July 2025* |
| Adrodd yn ôl i Gabinet ar ganlyniad y trafodaethau */ Report back to Cabinet on the outcome of the discussions* | Medi 2025 */ September 2025* |

CYNGOR GWYNEDD

17

| **Cyfarfod:** | Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn | **Dyddiad/Amser/Lleoliad:** 19 Mai 2025, 18:00, Ysgol Baladeulyn |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Aelodau Etholedig: Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg). Peter Thomas (Aelod Ward Llanllyfni)<br><br>Swyddogion Adran Addysg: Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gareth Richard Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg), Dion Roberts (Swyddog Prosiect Addysg).<br><br>Staff a Llywodraethwyr Ysgol Baladeulyn: 4 aelod<br><br>Rhieni / Gwarchodwyr: 15 aelod | |

| **Cofnod Llawn** | | |
|---|---|---|
| | **Eitem/ Pwnc** | **Gweithrediad** |
| **1** | **Croeso** | • Croesawodd y pennaeth bawb i'r cyfarfod.<br>• Croesawodd Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg bawb i'r cyfarfod.<br>• Trafododd Gwern y rheswm dros y cyfarfod a beth sydd wedi digwydd yn y cyfamser ers y cyfarfod cyntaf. |
| **2** | **Crynhoi Prif Heriau** | • Aethpwyd drwy'r cyflwyniad sydd yn amlygu'r sefyllfa bresennol gan gyfarch y prif heriau sef;<br>- Nifer disgyblion yr ysgol - yr ail isaf yn y sir<br>- Rhagamcanion yn parhau'n isel<br>- Nifer uchel o lefydd gweigion (72%)<br>- Maint dosbarthiadau bychain<br>- Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau<br>- Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol<br>- Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio<br>• Nodwyd y byddai'r opsiynau yn cael eu mesur yn erbyn yr heriau yma.<br>• Aethpwyd trwy'r y rhestr opsiynau gan gynnwys y rhai a gynigiwyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf.<br>• Nodwyd nad oes newid i'r heriau ers y cyfarfod diwethaf, gyda'r rhagamcanion niferoedd yn parhau i fod yn isel. Nodwyd yn ogystal, os oes mwy na 10% o leoedd gwag bod yna ddyletswydd ar yr Awdurdod i adolygu'r ddarpariaeth.<br>• |
| **3** | **Opsiynau Posib** | • Nodwyd fod 7 opsiwn wedi dod i'n sylw a bod dadansoddiad SWOT wedi ei gynnal ar y 7 opsiwn yma er mwyn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau gan hefyd adnabod cyfleoedd a bygythiadau posib.<br>• Nodwyd fod opsiwn sydd wedi ei gynnig i newid dynodiad yr ysgol i un Gristnogol wedi ei ddiystyru oherwydd nad yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu hyn.<br><br>**Opsiwn 1: Dim newid - Parhau gyda'r sefyllfa bresennol**<br><br>Trafodwyd y cryfderau gan nodi fod sylwadau mynychwyr y cyfarfod wedi eu cynnwys.<br><br>Nododd aelod o'r cyfarfod fod profiadau gwahanol ar gael ym Maladeulyn megis garddio a bod yr amrediad oedran yn galluogi i hyn ddigwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfeiriwyd at y gwendid nad yw'r Pennaeth yn ddigyswllt.<br><br>Nodwyd y bydd costau cynnal a chadw'n parhau. Nodwyd bod nifer o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgol all-ddalgylch a bod ystod amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau.<br><br>**Opsiwn 2: Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos**<br><br>.<br>Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT.<br><br>Nodwyd fod ffurfio ffederasiwn yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion i ymuno efo'r trefniant.<br><br>**Opsiwn 3: Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos**<br><br>Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT.<br><br>Trafodwyd y polisi cludiant gan nodi y byddai unrhyw ddysgwr sydd yn byw dros 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol ddalgylch yn gymwys am gludiant am ddim.<br><br>Bu i ran-ddeiliaid gynnig cyfle i ddefnyddio safle Ysgol Baladeulyn ar gyfer uned iaith Gymraeg hefyd gan nodi fod nifer o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn y Gymraeg yn yr ysgol.<br><br>Nodwyd y byddai dadansoddiad SWOT o'r opsiwn o gynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod PAY nesaf.<br><br>Gofynnodd y Pennaeth am y wybodaeth a gesglir am yr ysgol ddalgylch gan deuluoedd sy'n dewis mynychu ysgol all-dalgylch? Ymatebwyd drwy nodi nad yw'n briodol i'r swyddog mynediad ofyn pam nad ydynt yn dewis mynychu eu hysgol ddalgylch.<br><br>**Opsiwn 5: Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn**<br><br>Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT.<br>Nodwyd ni ragwelir y byddai dyraniad cyllidol uwch gyda'r opsiwn yma.<br><br>.<br><br>**Opsiwn 6: Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn**<br><br>Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT.<br><br>Nodwyd y rhagwelir y byddai costau cludiant yn ystyriaeth ynghlwm â chludo dysgwyr i Baladeulyn i fynychu uned ADY.<br><br>Nodwyd y byddai angen gwariant sylweddol ar gyfer cynnal a chadw ac ar gyfer addasu'r ysgol ar gyfer pwrpas ADY.<br><br>Nodwyd y byddai'r gofod ar gyfer dysgwyr ADY yn lleihau'r gofod ar gyfer gweddill y dysgwyr yn yr ysgol (h.y. lleihau capasiti'r ysgol)<br><br>Nodwyd bod dwy ysgol arbennig a nifer o unedau ABC yng Ngwynedd.<br><br>**Opsiwn 7: Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT. |
| **4** | **Dadansoddiad SWOT** | Nodowyd fod yr hyn sydd wedi cael ei gynnig gan y rhan-ddeiliaid wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad SWOT ac y byddent yn cael ystyriaeth lawn wrth symud ymlaen. |
| **5** | **Camau nesaf** | Trafodwyd camau nesaf.<br><br>Nodwyd y byddai cyfnod o 3 wythnos er mwyn derbyn unrhyw sylwadau gyda dyddiad 16/06/25 wedi ei osod. Nodwyd y byddai cyfarfod panel adolygu ysgol 3 yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf ac yn dilyn hynny byddai angen adrodd yn ôl i'r Cabinet<br><br><u>Cwestiynau/Sylwadau</u><br><br>A fyddai fy mhlentyn yn derbyn cludiant i ysgol all-dalgylch petai'r ysgol yn cau? Annhebygol, mae'n ddibynnol ar y polisi cludiant.<br><br>Nodwyd y byddai tîm ar gael i gefnogi rhieni a staff gydag unrhyw opsiwn fydd yn cael ei symud ymlaen gydag o.<br><br>Nodwyd pryder nad oes digon o dai yn Nantlle ac felly dim teuluoedd i ddarparu dysgwyr i sicrhau dyfodol yr ysgol.<br><br>Derbyniwyd sylw am y caban newydd sydd wedi ei adeiladu ym Mro Lleu, a gofynnwyd os gall yr adran addysg gludo'r dysgwyr yma mewn bws i ysgol fel Baladeulyn? Mewn ymateb i'r cwestiwn, pwysleisiwyd mai dewis y rhieni yw pa ysgol mae eu plentyn yn mynychu.<br><br>Nodwyd fod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i'r dysgwyr a staff yn ogystal â'r gymuned a'r adeilad yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn asesu effaith ac yn gwerthuso pob opsiwn wrth symud ymlaen.<br><br>Sylw gan y Pennaeth: Diolchwyd i Gwern am y sesiwn. Diolchwyd i'r rhieni am gynnig yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad SWOT. Gofynnwyd i edrych ar yr effaith gall unrhyw opsiwn ei gael ar les dysgwyr a pa fath o gefnogaeth y byddent yn ei dderbyn yn y dyfodol. Nodwyd yr angen i gydnabod a gweld yr effaith mae'r ysgol yn ei gael ar y dysgwyr yma'n bresennol. Cydnabuwyd fod niferoedd isel yn yr ysgol ond fod angen gwir ystyried beth mae'r ysgol yn ei gynnig i'r gymuned, teuluoedd a'r dysgwyr yn benodol.<br><br>Cadarnhaodd Gwern y bwriad i asesu'r opsiwn uned iaith yn ychwanegol i'r rhai oedd wedi eu cynnig cyn y cyfarfod. |

# YSGOL BALADEULYN

**7 Gorffennaf 2025**

***7 July 2025***

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

1

# AGENDA

1. **Croeso**
2. **Trafodaethau blaenorol**
3. **Gwerthusiad Opsiynau**
4. **Camau Nesaf ac Amserlen Amlinellol**
5. **Cloi**

1. ***Welcome***
2. ***Previous discussions***
3. ***Options Appraisal***
4. ***Next Steps and the Outline Timetable***
5. ***Close***

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

2

# TRAFODAETHAU BLAENOROL / PREVIOUS DISCUSSIONS

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

CYNGOR GWYNEDD

3

# PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / MAIN CHALLENGES OF THE PRESENT SITUATION

| | |
|---|---|
| 1 | Nifer disgyblion yr ysgol yn ail isaf yn y sir<br>*The number of pupils at the school is the second lowest in the county* |
| 2 | Rhagamcanion yn parhau yn isel<br>*Projections remain low* |
| 3 | Nifer uchel o lefydd gweigion<br>*High number of surplus places* |
| 4 | Maint dosbarthiadau bychain<br>*Small class sizes* |
| 5 | Amrediad ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau<br>*Broad age range within classes* |
| 6 | Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol<br>*Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average* |
| 7 | Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio<br>*School receives an additional £77,659 (September 2024) through the minimum staffing protection* |

4

# RHESTR HIR OPSIYNAU / LONG LIST OF OPTIONS

Yn sgil y mewnbwn a dderbyniwyd yn ystod, ac yn dilyn y cyfarfod cyntaf, cynhyrchwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn *'Gwneud Dim'* wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

*As a result of the input received during, and following the first meeting, a list of options was produced for consideration. Although the case for change has been established, the 'Do Nothing' option is included for comparison purposes.*

| | |
|---|---|
| **1** | Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol |
| **2** | Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos |
| **3** | Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos |
| **4** | Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn |
| **5** | Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn |
| **6** | Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn |
| **7** | Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol |
| **8** | Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn |

| | |
|---|---|
| **1** | *No change – continue with the current situation* |
| **2** | *Federation with a nearby school* |
| **3** | *Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school* |
| **4** | *Merger of local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn* |
| **5** | *Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn* |
| **6** | *Federation with a nearby school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn* |
| **7** | *Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school* |
| **8** | *Include a language unit on the Ysgol Baladeulyn site* |

5

# DIYSTYRU OPSIWN / DISREGARD OPTION

Rydym wedi ystyried yr 8 opsiwn, a mae'r opsiwn canlynol wedi cael eu diystyru gan nad ydi o yn cyd fynd gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion.
We considered the 8 options, and the following option has been disregarded as it doesn't comply with the School Organisation Code guidelines.

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol**<br><br>***Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school*** | Mae **Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)** yn nodi:<br><br>Caiff cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud cynigion i newid categori eu hysgol. Fodd bynnag, dylid nodi **na cheir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol dynodedig neu sy'n peri bod iddi wedyn gymeriad crefyddol dynodedig nad oedd iddi cynt**, neu ei bod yn colli ei chymeriad crefyddol dynodedig. **Ni chaniateir cymeriad crefyddol i ysgolion cymunedol**. Nid yw hi'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori. **Yn ogystal â hyn, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol sydd â chymeriad crefyddol dynodedig.**<br><br>Ni fyddwn felly yn rhoi ystyriaeth pellach i'r opsiwn yma. | *The **School Organisation Code (011/2018)** notes:*<br><br>*The governing bodies of maintained schools may make proposals to change the category of their school. However, it should be noted **that no alteration may be made to a maintained school that changes its designated religious character** or causes it to acquire or lose a designated religious character. **Community schools are not permitted to have a religious character.** It is not possible for voluntary aided, voluntary controlled or foundation schools with a designated religious character to become a community school through a change of category proposal.* **Similarly, community schools cannot become voluntary schools with a designated religious character.**<br><br>*We will therefore not be giving this option further consideration.* |

6

# GWERTHUSIAD OPSIYNAU / OPTIONS APPRAISAL

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

CYNGOR GWYNEDD

7

# OPSIYNAU I'W GWERTHUSO / OPTIONS TO APPRAISE

| | |
|---|---|
| **1** | Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol |
| **2** | Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos |
| **3** | Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos |
| **4** | Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn |
| **5** | Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulun |
| **6** | Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn |
| **7** | Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn |

| | |
|---|---|
| **1** | *No change – continue with the current situation* |
| **2** | *Federation with a neighbouring school* |
| **3** | *Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school* |
| **4** | *Merger of local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn* |
| **5** | *Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn* |
| **6** | *Federation with a neighbouring school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn* |
| **7** | *Include a language unit on the Ysgol Baladeulyn site* |

CYNGOR GWYNEDD

8

# CAMAU NESAF / NEXT STEPS

| **Camau / *Steps*** | **Amserlen Amlinellol / *Outline Timetable*** |
|---|---|
| Cwblhau gwerthusiad opsiynau<br>*Complete the options appraisal* | Gorffennaf – Awst 2025<br>July – August 2025 |
| Cynnal Asesiadau Effaith (Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb + Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant) ar opsiynau rhestr fer<br>*Undertake Impact Assessments (Language, Community, Equality + Assessment against the Wellbeing Act) on the short list of options* | Awst - Medi 2025<br>*August - September 2025* |
| Cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd<br>*Gwynedd Council Cabinet Meeting* | 14 Hydref 2025<br>14 October 2025 |

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

CYNGOR GWYNEDD

11

# Panel Adolygu Ysgol 3 – Ysgol Baladeulyn

Addysg

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | Panel Adolygu Ysgol 3 – Ysgol Baladeulyn | **Dyddiad / Amser / Lleoliad**: 07.07.25 \| 18:00 \| Ysgol Baladeulyn |
| **Presennol:** | Aelodau Etholedig: Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg)<br><br>Swyddogion Adran Addysg: Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gareth Richard Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg), Dion Roberts (Swyddog Prosiect Addysg)<br><br>Staff a Llywodraethwyr Ysgol Baladeulyn: 3 aelod.<br><br>Rhieni / Gwarchodwyr: 13 aelod | |

| Cofnod Llawn | | |
|---|---|---|
| | **Eitem/ Pwnc** | **Gweithrediad** |
| 1 | **Croeso** | Croesawodd Gwern pawb i'r cyfarfod<br>Nododd mai pwrpas y cyfarfod yw diweddaru pawb am ble mae'r broses arni ar hyn o bryd. |
| 2 | **Trafodaethau Blaenorol** | Nodwyd ein bod wedi edrych ar y heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol ar hyn o bryd. |
| 3 | **Prif Heriau'r Sefyllfa Bresennol** | Trafodwyd y prif heriau a nodwyd yn y cyflwyniad |
| 4 | **Rhestr Hir Opsiynau** | Aethpwyd trwy'r opsiynau sydd ar y rhestr hir, roedd 8 opsiwn ar y rhestr hir, gan gynnwys:<br>• Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol<br>• Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos<br>• Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos<br>• Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn<br>• Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn<br>• Ffederaleiddio gydag ysgol cyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn<br>• Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol<br>• Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn<br><br>Mae'r rhestr hir yma yn cynnwys opsiynau sydd wedi eu cynnig yn dilyn y cyfarfod PAY 1. |
| | | Nodwyd fod yr opsiwn o newid dynodiad crefyddol yr ysgol i fod yn Gristnogol wedi ei ddiystyru gan fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi<br><br>*"Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol."* |
| 6 | **Gwerthusiad Opsiynau** | Nodwyd y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i 7 opsiwn o fewn y gwerthusiad opsiynau, sef:<br>• Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol<br>• Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos<br>• Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos<br>• Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn<br>• Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn<br>• Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn |
| | | Nodwyd fod y gwerthusiad opsiynau yma ar waith ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gwblhau dros yr haf.<br>Nodwyd y bydd pob opsiwn yn cael ei ystyried yn y gwerthusiad opsiynau, gydag opsiwn/opsiynau yn mynd gerbron y Cabinet. |
| 8 | **Camau Nesaf** | Nodwyd y bydd adroddiad gydag argymhelliad ar y ffordd ymlaen yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar 14 Hydref 2025.<br>Esboniwyd amserlen amlinellol y rhaglen a rhesymeg dros yr angen i fynd gerbron Cabinet, ac aethpwyd drwy'r camau nesaf.<br>Nodwyd y bydd cynnwys yr adroddiad Cabinet yn cael ei rannu gyda'r ysgol wythnos cyn iddo fynd gerbron y Cabinet.<br>Cadarnhawyd y bydd yr holl ddogfennaeth yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br>Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau gydag unrhyw gynnig arfaethedig, yna bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig hwnnw.<br>Gofynnodd y pennaeth os bydd cost y pen yn cael ei adlewyrchu. Atebwyd y bydd.<br>Gofynnodd un rhiant os bydd cyfraniad yr ysgol tuag at gynnydd dysgwyr ag anghenion ADY yn cael ei ystyried. Ymatebwyd drwy nodi fod hyn yn rhywbeth a fydd yn ystyriaeth wrth werthuso'r opsiynau. Nodwyd mai un opsiwn sydd wedi cael ei gynnwys yw newid yr ysgol i hwb arbenigol ar gyfer ADY, sef opsiwn 5 a 6.<br>Rhannodd amryw o rieni bryder am diffyg darpariaeth ar gyfer ADY gan nodi fod darpariaeth Ysgol Baladeulyn wedi bod yn dda ar gyfer eu plant hwy.<br>Trafodwyd sut fydd yr asesiadau effaith yn cael eu cynnal a'u llunio, a nodwyd fod asesiadau effaith prosiectau blaenorol ar gael ar wefan y Cyngor.<br>Gofynnodd y pennaeth os bydd yr ysgol yn cael cyfrannu at y gwerthusiad opsiynau. Nodwyd fod y cyfarfodydd PAY yn gyfle i roi mewnbwn.<br>Gofynnodd y pennaeth os bydd yr agwedd ADY yn cael ei ystyried yn erbyn pob opsiwn.<br>Gofynnodd un aelod os oes posib i unigolyn fod yn rhan o'r cyfarfod Cabinet i gynrychioli'r ysgol. Nodwyd y bydd yr aelod lleol yn rhan o'r cyfarfod a bydd yn derbyn cyfle i ddarparu sylwadau ar yr adroddiad.<br>Nodwyd y bydd gwerthusiad o bob opsiwn yn mynd gerbron y Cabinet a bydd gofyn iddynt benderfynu a ddylid symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol neu ddim yn ddibynnol ar yr argymhelliad. Rhoddwyd eglurhad lefel uchel o drefn y broses statudol.<br>Daethpwyd a'r cyfarfod i ben drwy nodi fod croeso i'r rhanddeiliaid cysylltu petai ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. |

**Mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol Balaldeulyn**

Yn dilyn y cyfarfodydd lleol, mae crynodeb isod o'r sylwadau a dderbyniwyd:

**Cyfarfod PAY Baladuelyn 1 – 17 Mawrth 2025**

Derbyniwyd 6 gohebiaeth gan ran-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn yn dilyn y cyfarfod lleol cyntaf. Dyma grynodeb o'r prif sylwadau a nodwyd yn yr ohebiaeth:

- 1 llythyr cynnig opsiwn i uno ysgolion lleol i gryfhau a chynnal Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig ychwanegu ardal/uned ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig opsiwn i gynnwys darpariaeth ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr ospiwn.
- 1 llythyr yn cynnig syniadau arloesol a rhanbarthol i gefnogi Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig opsiwn i drosi Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gristnogol, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 e-bost yn cynnig ffederaleiddio Ysgol Baladeulyn gydag Ysgol Talysarn, gydag Ysgol Baladeulyn yn cynnig darpariaeth ADY.